Hawdd ei Ddeall

# Pecyn Cymorth Mynediad i Wleidyddiaeth

## Gwybodaeth a chyngor i'ch helpu i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth

disability wales
anabledd cymru

# Am y llyfryn yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Pecyn Cymorth Mynediad i Wleidyddiaeth**.



Mae’r rhan yma o’r pecyn cymorth yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir bwysig am wleidyddiaeth, anabledd a’r gyfraith.



Mae cysylltiadau defnyddiol ar y diwedd.

# Cynnwys


**Am y pecyn cymorth yma** .......... **4**

**Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth yma** .......... **6**

**Beth sydd yn y pecyn cymorth yma** .......... **9**

**Pethau pwysig i'w gwybod** .......... **10**

**Y gyfraith** .......... **16**

**Mwy o wybodaeth** .......... **22**

**Cysylltiadau defnyddiol** .......... **23**

# Am y pecyn cymorth yma



Mae’r pecyn cymorth yma yn set o adnoddau a chanllawiau.




Y nod ydy helpu pobl anabl i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.



Mae’n nodi camau rydych chi’n gallu eu dilyn. Ac mae’n rhoi’r wybodaeth rydych chi ei hangen i benderfynu cymryd rhan neu beidio a sut.



Aelodau o’r **Rhwydwaith Mynediad I Wleidyddiaeth** sydd wedi ei weud.



Mae’r rhwydwaith yn grŵp o bobl anabl. Maen nhw yn rhannu gwybodaeth, sgiliau a chefnogaeth i helpu mwy o bobl anabl i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.



Mae  mwy o wybodaeth am y prosiect Mynediad at Wleidyddiaeth ar ein gwefan: [disabilitywales.org/projects/mynediad-at-wleidyddiaeth](disabilitywales.org/projects/mynediad-at-wleidyddiaeth)

# Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth yma



Rydyn ni'n dilyn y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Mae'r **Model Cymdeithasol** yn dweud bod pobl yn anabl gan **rwystrau** yn y byd o'u cwmpas.

Mae **rhwystrau** yn gallu bod yn:



- **Amgylcheddol.** Fel adeiladau heb doiledau **hygyrch**.



Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth, ei ddefnyddio, mynd i mewn i leoeddd ieu ddeall rhywbeth.



- **Agweddau.** Agweddau pobl tuag at bobl anabl.



Er enghraifft, gan dybio nad ydy pobl anabl yn gallu gwneud rhai pethau.




- **Sefydliadol.** Fel swydd sydd ddim yn cynnig oriau gwaith hyblyg.




**Mae'r pecyn cymorth ar gyfer unrhyw un gydag amhariad neu gyflwr iechyd. Os ydych chi'n nodi eich bod yn anabl ai peidio.**



Yn y Model Cymdeithasol, mae **amhariad** ac **anabledd** yn wahanol.



Mae **amhariad** yn wahaniaeth mewn sut mae corff neu feddwl rhywun yn gweithio.



Mae hyn yn gallu bod yn y tymor byr, yn y tymor hir neu hyd yn oed yn newid o ddydd i ddydd. Mae'n gallu bod oherwydd eich bod chi'n sâl, wedi'ch hanafu, neu bod gennych chi gyflwr iechyd.




**Anabledd** ydy cael llai o gyfleoedd i gymryd rhan fel mae eraill yn gallu.



**Chi sy'n penderfynu sut rydych chi'n uniaethu. Rydych chi'n gallu defnyddio'r pecyn cymorth yma i wneud cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth yn haws.**

# Beth sydd yn y pecyn cymorth yma



Mae'r pecyn cymorth wedi'i rannu'n 8 llyfryn:

**Llyfryn 1**
Gwybodaeth bwysig am wleidyddiaeth, anabledd a'r gyfraith

**Llyfryn 2**
Cam 1- Dewis cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth neu beidio

**Llyfryn 3**
Cam 2 – Ymuno â phlaid wleidyddol

**Llyfryn 4**
Cam 3 – Cymryd rhan mewn gwaith plaid

**Llyfryn 5**
Cam 4 – Dod yn ymgeisydd i'ch plaid

**Llyfryn 6**
Cam 5 – Bod yn ymgeisydd

**Llyfryn 7**
Cam 6 – Os ydych chi'n ennill yr etholiad

**Llyfryn 8**
Sefyll fel ymgeisydd annibynnol

## Gwleidyddiaeth



Mae gwleidyddiaeth yn meddwl sut mae pobl yn gwneud penderfyniadau dros wlad neu gymuned.



Mae gwleidyddiaeth yn ffordd o:

- Gwneud penderfyniadau gyda’n gilydd.



- Datrys problemau.
- Rhannu arian, gwasanaethau a **phŵer** yn deg.



Mae **pŵer** yn meddwl gallu gwneud penderfyniadau.



Does dim rhaid i chi ddod yn wleidydd i wneud gwahaniaeth.

**Rydych chi'n gallu:**



- **Ymuno gyda Sefydliad Pobl Anabl lleol a helpu gyda'i waith.**



- **Llofnodi deiseb.**

  Mae **deiseb** yn rhestr o bobl sy'n gofyn am newid



- **Rhannu beth rydych chi'n feddwl mewn ymgynghoriad.**

  **Ymgynghoriad** ydy pan fydd pobl yn gofyn beth rydych chi'n feddwl cyn gwneud penderfyniadau.

## Amhariadau



Mae’r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn dweud nad ydy pobl yn anabl gan amhariadau neu gyflyrau iechyd.



Mae pobl yn anabl gan **rwystrau** yn y byd o’u cwmpas. Mae **rhwystrau** yn bethau sy’ n stopio neu’n ei gwneud hi’n anoddach i bobl anabl gymryd rhan.




Dydy’r Model Cymdeithasol ddim yn gyfraith. Mae’r gyfraith yn defnyddio’r **Model Meddygol o Anabledd**.



Mae hyn yn dweud bod pobl yn anabl oherwydd eu amhariadau neu gyflyrau iechyd.




Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn amddiffyn pobl gydag amhariadau neu gyflyrau iechyd. Ond mae'n dweud bod gennych chi yr hawl i **addasiadau rhesymol**.





Rydych chi'n gallu defnyddio'r Ddeddf Cydraddoldeb i wneud yn siŵr eich bod yn cael **addasiadau rhesymol**.




Mae **addasiadau rhesymol** yn newidiadau sydd yn gallu cael eu gwneud i gael gwared ar **rwystrau** sydd yn eich stopio rhag cymryd rhan.

## Manteision




Dydy Taliad Annibyniaeth Personol, sydd hefyd yn cael ei alw yn PIP, ddim yn destun prawd modd.




Mae hyn yn meddwl nad ydy e’n cael ei roi i chi yn seiliedig ar faint o arian rydych chi’n ei ennill.



Rydych chi’n gallu cael PIP os oes gennych chi swydd.




Mae Credyd Cynhwysol yn destun prawf modd.
Mae'n cefnogi pobl  heb lawer o arian.



Rydych chi'n gallu cael Credyd Cynhwysol os oes gennych chi swydd.




Bob amser gofynnwch am gyngor os nad ydych chi'n siŵr a fydd rhywbeth yn effeithio ar eich budd-daliadau.

## Y Ddeddf Cydraddoldeb




Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl anabl yn ôl y gyfraith. Mae'n gallu helpu os ydych chi'n cael eich trin yn annheg.

I ddefnyddio'r ddeddf yma, rhaid i chi fodloni ei diffiniad o anabledd. Fel arfer, rhaid i'ch cyflwr:




- para o leiaf 12 mis



- gwneud gweithgareddau bob dydd yn llawer anoddach.




Rydych chi'n gallu defnyddio'r Ddeddf Cydraddoldeb i:

- gofyn am addasiadau rhesymol



- herio triniaeth annheg.



**Addasiad rhesymol** ydy newid sydd yn eich helpu i gymryd rhan.



Rhaid i sefydliad feddwl am eich cais am **addasiad rhesymol**.



Ond does dim rhaid iddyn nhw ddweud ie.



Os ydyn nhw'n dweud na, fe ddylen nhw ddweud pam.



Weithiau efallai y bydd angen i chi herio eu penderfyniad.




Mae amserlenni llym ar gyfer hyn. A bydd angen i chi wneud hyn eich hun.




Efallai y byddwch chi angen cyngor neu gymorth.



Rydych chi'n gallu dod o hyd i sefydliadau cymorth yn adran C**ysylltiadau Defnyddiol** y llyfryn yma.


# Model Cymdeithasol o Anabledd



Mae’r Model Cymdeithasol yn syniad, nid yn gyfraith.



Mae’n dweud bod **rhwystrau** yn stopio pobl anabl rhag cymryd rhan.



Mae’n canolbwyntio ar gael gwared ar **rwystrau**. Dim trefnu pobl.




Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r Model Cymdeithasol i helpu i wneud penderfyniadau a chynlluniau.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl



Mae hwn yn gytundeb rhwng gwahanol wledydd ar draws y byd. Mae'n ymwneud â hawliau pobl anabl.




Mae'n cefnogi pobl anabl sy'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.



Mae'r DU wedi cytuno i'w ddilyn. Ond dydy e ddim yn rhan o gyfraith y DU eto.

# Gwleidyddiaeth




Rhaid i **bleidiau gwleidyddol** ddilyn y Ddeddf Cydraddoldeb.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp o bobl sy'n rhannu'r un syniadau am sut i redeg y wlad.



Er enghraifft, Plaid Cymru, Reform a Llafur.



Rhaid i gynghorau hefyd ddilyn deddfau cydraddoldeb.



Mae gan gynghorau ddyletswyddau ychwanegol hefyd - mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am anghenion pobl anabl.

# Mwy o wybodaeth

disability wales
anabledd cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Kat Watkins**, Swyddog Prosiect Mynediad at Wleidyddiaeth:



**Gwefan:**
disabilitywales.org/projects/access-to-politics/cy



**E-bost:**
kat.watkins@disabilitywales.org

**Hawdd ei Ddeall** Cymru
**Easy Read** Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

# Cysylltiadau defnyddiol

## Cyngor Budd-daliadau:

- Cyngor ar Bopeth Cymru - citizensadvice.org.uk/cymraeg
- Turn2us - turn2us.org.uk

## Cyngor am dâl:

- Llywodraeth Leol- cdffc.llyw.cymru/cydnabyddiaeth-ariannol
- Y Senedd- bwrddtaliadau.cymru

## Gwybodaeth am etholiad:

- **Comisiwn Etholiadol:** electoralcommission.org.uk/cy/taxonomy/term/212

## Prif bleidiau gwleidyddol:

- **Plaid Werdd Cymru** - wales.greenparty.org.uk/cy
- **Plaid Cymru** - plaid.cymru
- **Reform DU** - reformparty.uk
- **Ceidwadwyr Cymreig** - conservatives.wales
- **Llafur Cymru** - welshlabour.wales/cy
- **Democratiaid Rhyddfrydol Cymru** - demrhydd.cymru

**Mae yna bleidiau eraill.**

## Cyngor i Ymgeiswyr Annibynnol sy’n sefyll dros Lywodraeth Leol:

- **Cymdeithas Llywodraeth Leol Grŵp Annibynnol -** local.gov.uk/political/lga-independent-group
- **Comisiwn Etholiadol -** electoralcommission.org.uk/sites/default/files/2022-05/StandingasanindependentcandidateLGW.pdf

## Dod yn Aelod o’r Senedd:

- senedd.cymru/cyfleoedd-gwaith/sefyll-i-fod-yn-aelod-senedd
- electoralcommission.org.uk/cy/canllawiau-i-ymgeiswyr-ac-asiantiaid-yn-etholiadaur-senedd

## Dod yn Gynghorydd Awdurdod Lleol:

- beacouncillor.wales/about-local-councils
- **Canllaw Etholiadau Lleol:** electoralcommission.org.uk/cy/ein-canllawiau/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-lleol-yng-nghymru

## Dod yn Gynghorydd Cymuned neu Dref:

- llyw.cymru/cynghorau-tref-chymuned-arweiniad-html
- **Un Llais Cymru:**
  unllaiscymru.cymru/amdano

## Cyngor ar gyfer cadw'n ddiogel ar-lein:

- **Shout Out UK**: shoutoutuk.org/blockingthenoise

## Diffiniadau o anabledd:

- **Model Cymdeithasol Anabledd:**
  disabilitywales.org/social-model/cy
- **Deddf Cydraddoldeb:**
  legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/6
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl:**
  ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-persons-disabilities

## Cyngor ar gyfer pryd mae angen i chi sefyll i fyny yn erbyn materion:

- **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:** legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149

- equalityhumanrights.com/cy/arweiniad/public-sector/public-sector-equality-duty/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus

- **Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** equalityhumanrights.com/cy/human-rights/y-ddeddf-hawliau-dynol

- **Gwasanaethau Cymorth Cynghori ar Gydraddoldeb:** equalityadvisoryservice.com

## Cyngor i Bobl ag Anabledd Dysgu:

- Anabledd Dysgu Cymru: ldw.org.uk/cy/project/barod-i-bleidleisio

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247